

Pris: 40c

Papur Pawb

Ionawr 2006

Rhif 315

Catrin yn Sierra Leone

Yn ddiweddar, bu Catrin M S Davies, Simne Wen, Talybont, yn Sierra Leone yn ffilmio – profiad rhyfeddol ac ysgytwol. Yma mae'n adrodd hanes ei thrip.

Ddiwedd 2004 mi glywais bod S4C yn chwilio am raglenni am Gymry ifanc sy'n dilyn gyrfa ddifyr. Bùm yn holi pawb a chlywais am gyn-ddisgybl ym Mhenweddig oedd yn gweithio yn Sierra Leone i'r Cenhedloedd Unedig – Tom Cairnes. Es ati i e-bostio a chael nodyn bywiog yn ôl yn dweud bod croeso i mi ei ddilyn wrth ei waith!



Mae ganddo hanes anhygoel gan iddo weithio fel ymgynghorydd busnes i un o gwmnïau mwyaf dylanwadol Llundain ac Efrog Newydd am dair mlynedd. Dewisodd droi ei gefn ar y bywyd bras a mynd i weithio yn ngwlad dlotaf y byd yn helpu'r bobol i greu economi i'w gwlad. Wrth e-bostio Tom i drefnu'r cyfnod ffilmio, soniodd y byddai'n hoffi creu cysylltiad rhwng ysgol o Gymru ac ysgol yn Freetown, prif ddinas Sierra Leone. Atebais yn syth, gan wybod y byddai Ysgol Gynradd Tal-y-bont yn barod iawn i helpu (doedd ddim angen gofyn!) Cefais sioc wedyn pan atebodd i ddweud ei fod yn gyn-ddisgybl yn Nhal-y-bont – do'n i ddim yn gwybod ei fod yn grwt mor lleol! Bydd llawer o'r ardal yn cofio Tom a'i deulu yn byw yn Nhaliesin.

Codwyd £75 gan blant Ysgol Tal-y-bont ac ar ôl i'r cwmni gyfrannu ychydig roedd hi'n bosib prynu beiro, pensil, creon lliw, ffolder, llyfr ysgrifennu a sialc i bob plentyn ac athro – dros 500 i gyd. Mae hynny yn lawer iawn o fagiau – bu sawl munud tense iawn yn y maes awyr gan eu bod yn aruthrol o drwm, ond bu ewyllys da o'n plaid ni a chawsom fynd â phopeth gyda ni i Ysgol Caerdydd, Freetown lle y mae Tom yn helpu bob yn ail benwythnos. Yno mae 10 dosbarth gyda rhyw 50 o blant ymhob un, ac oedranau'r plant yn amrywio o 3 i 17 oed – y rhai hynaf wedi colli'r cyfle i gael addysg pan yn blant bach oherwydd y rhyfel cartref erchyll. Roedd y dosbarthiadau mewn adeiladau tlawd iawn yr olwg ac mae sawl buwch yn Nhal-y-bont yn byw mewn siediau mwy cyffyrddus.



Er tlodet y plant a'r ysgol, roedd y croeso yn gynnes iawn, iawn. Roedd yr athrawon mor falch o gael peth mor syml â sialc gan bod hwnnw wedi gorffen a dim gobaith prynu mwy. Roedd yr athrawon heb gyflog ers chwe mis ac yn gwneud gwaith arall gyda'r nos er mwyn cynnal eu hunain. Roedd plant Tal-y-bont wedi ysgrifennu llythyron a gwneud lluniau i'r plant a dywedodd yr athrawon wrthon ni am ddychwelyd ddiwedd yr wythnos a byddai yna becyn o lythyron i ddod nôl i Gymru.

Yn y llun mi welwch chi'n olygfa oedd yn ein disgwyl ymhen dyddiau – y plant lleiaf i gyd a'u llyfr sgwennu – ac roedden nhw mor falch o'r gwaith yr oedden nhw wedi ei wneud yr wythnos honno. Llyfr cyntaf y mwyafrif gan eu bod yn rhy dlawd i allu prynu un. Roedd yna bentwr o luniau a llythyron i ddod yn ôl i Dalybont hefyd – ysgrifau a delweddau ffantastig.

Beth yw'r ddelwedd sy'n aros yn y cof i mi? Y plentyn bach oedd yn byw gyda'i athrawes gan bod ei fam a'i dad wedi eu lladd yn y rhyfel. Does gennym ni ddim amgyffred, yn nag oes? Nid gwlad wahanol yw hon, nid cyfandir gwahanol – mae'n fyd hollol wahanol.

Bydd y rhaglen am Tom Cairnes yn ymddangos ar S4C ym mis Mawrth – mwy o fanylion yn rhifyn mis nesaf Papur Pawb!

Angylion Ysgol Sul Bethel → tud 4



Papur Pawb

Golygyddion Cyffredinol:	Eleri a Gwilym Huws Pengwern, Tal-y-bont, Ceredigion. gehpengwern@yahoo.co.uk	(01970) 832231
Tynnu lluniau:	Cysyllter â golygyddion y mis.	
Teipyddes:	Carys Briddon	
Bont-goch:	GOHEBYDDION LLEOL Hilda Thomas, Cwmere, Bont-goch	832295
Parsel Henllys:	Dilys Morgan, Alltgoch	832498
Eglwysfach:	Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais	(01654) 781312
Taliesin:	Mai Leeding, Glannant, Taliesin	832672
Tal-y-bont:	Aileen Williams, Maesmeillion	832438
	Kathleen Richards, Y Bryn	832201
Tre'r Ddôl:	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl	832429
	Janet Evans, Cefngweiriog	(01654) 781260
Maes y Deri:	Eirlys Jones, 91 Maes y Deri	832483
Cadeirydd:	CYMCDEITHAS PAPUR PAWB Robat Gruffudd, Bryngwyn, Tal-y-bont	832718
Ysgrifennydd:	Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont	832384
Trysorydd:	Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont	832560
Aelodaeth:	Aileen Williams, Maesmeillion	832438
Hysbysebion:	Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais	(01654) 781312
Plygwyr:	Lyn Hammonds, Beti Jenkins, Dafydd Parri, Gwenllian Parry-Jones	
Dosbarthwyr:	Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, Eurllys Jones (Tanysgrifiadau)	

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Cyngor Cymdeithas Ceulanamaesmawr

Bydd y Cyngor yn barod i dderbyn ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a grwpiau oddimewn i'r gymuned. Anfoner cais ynghyd â chopi o fantolen ariannol at y Clerc:

Goronwy Wyn Jones,
Glasgoed, Tal-y-bont,
Ceredigion SY24 5HH
erbyn 27ain o Ionawr fan bellaf.

Dyddiadur

IONAWR

- 15** Bethel Uno yn Nasareth
Nasareth 10 Parch Richard
Lewis
Rehoboth 5 T.J. Irfon Evans
Eglwys Dewi Sant 11 a.m.
- 16** Merched y Wawr Tal-y-bont ar
Cylch. Reflexology Margaret
Hands
C.Ff.I. Cwis y Sir
- 22** Bethel 6 Gweinidog
(Cymundeb)
Nasareth 10 Gordon
Macdonald
Rehoboth 10 Bugail
Eglwys Dewi Sant 9.30 a.m.
Boreol Weddi
- 24** C.Ff.I. Noson yng ngofal
Nerys Maesbeidiog
- 26** Sefydliad y Merched Tal-y-
bont. 2 p.m.-5 p.m. Cyril
Baker - Gemwaith Neuadd
Goffa
- 29** Bethel 10 Parch J.E. Wynne
Davies
Nasareth 10 Elwyn Pryse
Rehoboth 5 Elwyn Pryse
Eglwys Dewi Sant 10
Gwasanaeth Undebol Cymun
Bendigaid, Llangorwen

CHWEFROR

- 3** C.Ff.I. Cinio Blynyddol,
Gwesty'r Marine
- 5** Bethel 10 Trefn Lleol Bethel
Nasareth 5 Bugail (C)
Rehoboth 5 Tudor Davies
Eglwys Dewi Sant 2.30
Cymun Bendigaid
- 6** Pwyllgor Sioe Tal-y-bont, 8 o'r
gloch, Neuadd Goffa

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont (01970 832438) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Cofio Miss Enid Herbert

Trist yw cofnodi marwolaeth Miss Enid Herbert, gynt o Maes-y-felin, Tal-y-bont. Bu farw ar 5 Rhagfyr, bedwar diwrnod ar ôl iddi ddathlu ei phen-blwydd yn 99 oed. Ganed hi yn Highbury, Llundain, a bu'n gweithio i Fwrdd Dŵr y ddinas ar hyd ei gyrfa.

Roedd ei theulu'n hanu o Glanwern, Borth, a symudodd yn ôl i'r ardal wedi iddi ymddeol, gan ymgartrefu yn y Borth, Llangorwen a Thal-y-bont cyn symud i Bantyperan, Llandre, dair blynedd ar ddeg yn ôl, lle y'i croesawyd fel aelod o'r teulu. Hir y cof am wraig dirion a boneddigaidd.



Daeth dros ddeugain o henoed ynghyd i Ginio Nadolig yng Ngwesty'r Llew Du ar yr 20fed o Ragfyr. Yn ystod y cinio, bu Arvid ar ben cadair yn tynnu lluniau.

Wedi mwynhau gwledd o dwrci ar 'trimings' i gyd dosbarthwyd gwobrwyon y raffl. Wedi hynny daeth Mr. Phillips atom gyda band pres yr ysgol i'n diddori gyda darnau swynol a bywiog. Yna daeth y côr i mewn i ganu alawon Cymreig a charolau hen a newydd o dan arweiniad medrus Falyri Jenkins. Cafodd y plant dderbyniad gwresog gan yr henoed. Yr oedd yn berfformiad o safon. Wedi dymuno Nadolig Llawn inni, aeth y plant allan i dderbyn ffrwythau ac ati gan y cadeirydd a gorffennwyd gyda choffi a mins peis. Cytunai pawb fod y plant wedi gwneud y cinio yn achlysur i'w gofio a diolchwyd i'r pifathro ar athrawon am eu cyweithrediad parod.

NEUADD GOFFA TAL-Y-BONT Cynhelir CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

o BWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD

ar
NOS FERCHER, 8
CHWEFROR 2006
yng ngwaelod y Neuadd
am 8.00 o'r gloch
Croeso i bawb

CARTREFI CYNNES

WÂRME
SYSTEM WRSEDDI GAOWMETHOL
DRYDANNOL LHZ

Ar gyfer gweithgaredd, economadd
ac amgylchedd ffafel

Eich ymgynghorydd teul:
Darellor
3-Rhes Eilion
Pherab
Machytleth
Pwys
SY20 5PH

Ffôn: 01970 78349
Symudol: 07949 52848

e-mail: lantayrall@hotmail.com

S. F. BYRNE

Adeiladwr a Saer Maen



Ffôn: 01970 832068

M: 077626 20309

Gwneir pob math o waith

Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwalls gan Richard
Pedicure a Manicure
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Cronfa Eleri

Blwyddyn 2005 - dros £12,000 i'w rannu

Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau
sy'n cydnaws ag amcanion y Gronfa



Ffurflen gais ar gael oddiwrth: Ysgrifennydd Y Gronfa
Garreg Wen
Tal-y-bont
Ceredigion SY24 5HJ

Tel: 01970 832551 e-bost: iola.apgwynn@tiscali.co.uk

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 20fed 2006

Amcanion Cronfa Eleri

'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwyllianol
cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Golygyddion y rhifyn hwn oedd
Gwyn, Fal a Mared, gydag Ian a
Sara'n dylunio. Golygyddion y
rhifyn nesaf fydd Medi (832725;
llanerch@globalnet.co.uk) a Nic
(832001) gyda Iolo'n dylunio.
Dylai'r deunydd fod yn llaw'r
golygyddion erbyn dydd Gwener
3 Chwefror a bydd y papur ar
werth yn y siopau ddydd Gwener
10 Chwefror.



CLWB NOS WENER

Daeth nifer dda ynghyd i fwynhau cinio Nadolig blasus yn y Llew Du, Tal-y-bont ar Ragfyr 22ain. Mwynhawyd adloniant gan Harriet Earis, telynores ifanc ddawnus o Bontrhydfendigaid. Ar Ionawr 13eg byddwn yn dathlu'r Hen Galan.

ENNILL CADW MI GEI

Enillodd Huw Evans, Cefngweiriog, gadw mi gei siâp blwch ffôn ar raglen radio Geraint Lloyd yn ddiweddar – da iawn ti.

PENBLWYDD ARBENNIG

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Mrs Elsie Thomas, Bryngolau, Tal-y-bont a ddathlodd ei phenblwydd yn 80 oed ar Ionawr 3ydd.

CROESO

Croeso cynnes i Gerwyn Breese a Menna Morgan sydd newydd ymgartrefu yn rhif 4 Dol y Pistyll, Tal-y-bont. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

YN YR YSBYTY

Gobeithio fod Haydn Ebenezer, 7 Maesyderi, Gerald Roberts, 90 Maesyderi ac Emyr Jones, Maesnant, Tal-y-bont yn teimlo'n well erbyn hyn wedi bod yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar.

DYWEDDÏO

Llongyfarchiadau i Karen Bullman a Hefin West, White Windows, Tal-y-bont ar eu dyweddïad yn ystod y Nadolig.

ARHOLIAD PIANO

Da iawn ti Claire Evans Watkin, Heulfor, Tal-y-bont ar basio arholiad Gradd 1 ar y piano. Dal ati.

Pobl a Phethe



Disgyblion B6 Ysgol Gymunedol Tal-y-bont yn cyflwyno copi o'u prosiect ar y cyfrifiad i Archifdy Ceredigion.

CYDYMDEIMLO

Daeth profedigaeth i ran sawl teulu yn ystod y mis a chydymdeimlwn â chi i gyd.

Bu farw Mr Dennis Jenkins, tad Denise Morgan, Gillian West a Paul Jenkins, Tal-y-bont.

Collodd Arwel West, White Windows, Tal-y-bont ei ewythr, Mr Handel Morgan.

Trist hefyd yw cofnodi marwolaeth Mr Richard Bennett, Ynyscapel. Cydymdeimlwn yn arbennig â Mrs Menna B. Jenkins, ei chwaer, a ofalodd mor dyner amdano, ynghyd â'r teulu i gyd.

Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Pam Bement, gynt o Berllan Fach, Tal-y-bont. Cydymdeimlwn â John ei gŵr, Peter, Anna ac Ioan.

Trist hefyd yw cofnodi marwolaeth sydyn Mrs Buddug James Jones, Bryngwyn Canol.

LLONGYFARCHIADAU

Daeth anrheg blwyddyn newydd annisgwyl i Mrs Annie Watkin, Brynawel, Taliesin, pan glywodd bod ei mab Owen wedi derbyn yr OBE yn Rhestr Anrhydeddau'r

Flwyddyn Newydd. Llongyfarchiadau i'r ddau.

YMDDEOL

Pob lwc i Trish Huws, Llwyn Onn, Pentrebach, ar ei hymddeoliad.

PARTI NOSON CALAN

Cafodd cyfeillion Ysgubor-y-coed barti da iawn yn Neuadd yr Eglwys ar 31 o Ragfyr. Roedd yn braf i gwrdd â chymdogion, siarad, bwyta, yfed a dawnsio wrth gwrs.

Diolch yn fawr iawn i John a Karen Thomas, Y Garej, am drefnu y digwyddiad. Mi fydd yr elw yn mynd i Neuadd yr Eglwys.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Barrie Jones, Llys Terfyn, Taliesin sydd wedi dechrau swydd newydd fel Ysgrifennydd Cwmni i Bwyllgor Sioe Amaethyddol Cymru, Llanelwedd.

ANRHYDEDDU

Anrhydeddwyd yr Athro Russell Davies, Nant Grisial, Ffwrnais yn

ddiweddar gan y Gymdeithas Rheoleg Brydeinig am ei waith yn y maes Theori Rheolwg. Yn ogystal â hyn derbyniodd gadair Mathemateg ym Mhrifysgol Caerdydd ar Ionawr 1af, 2006.

Llongyfarchiadau cynnes iddo.

YN YR YSBYTY

Dymuniadau gorau i Gareth Jones, 2 Maesclettwr, Tre'rddôl, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

CINIAWA

Aeth aelodau Cyngor Cymuned Llangynfelyn am bryd o fwyd yn y Wildfowler nos Wener 6 Ionawr, Gafodd bawb noson bleserus iawn.

CLWB FFERMWYR IFANC TAL-Y-BONT A'R CYLCH

Bu'r aelodau allan yn canu carolau yn ystod mis Rhagfyr gan godi arian at dair elusen, sef Nyrsys Macmillan, Menter Lluest a Chartref Tregerdan. Torrwyd ein record unwaith yn rhagor eleni, gan i ni gasglu'r swm anrhydeddus o £2,220.50!! Llawer o ddiolch i bawb ohonoch a gyfrannodd mor hael.

Wedi'r holl ganu, cynhaliwyd ein Parti Nadolig yn y Llew Gwyn yn Nhal-y-bont ar nos Fawrth, 20 Rhagfyr. Cafodd pawb gyfle i ymlacio ar ôl blwyddyn mor brysur.



YMDDEOL

Ar ddiwedd Rhagfyr fe ymddeolodd Jen Davies, Erwlon, Tal-y-bont, ar ôl blynyddoedd o wasanaeth yn Garej Davmor. Bydd Gwyn a Nia yn parhau i gynnal y busnes ond bydd cwsmeriaid yr ardal yn colli'r gwasanaeth siriol a gafwyd gan Jen.

Ysgol Gymunedol Tal-y-bont



Mair (Eden). Joseff (Alex) â'r baban Iesu Ysgol Tal-y-bont



Y Bugeiliaid yn cychwyn am Fethlehem

Gwasanaeth y Nadolig

Bu mis Rhagfyr yn llawn cyffro wrth i'r Nadolig nesáu a'r uchafbwynt yn sicr oedd y Gwasanaeth Nadolig a gynhaliwyd yng Nghapel Bethel cyn diwedd y tymor.

Yr oedd hi'n hyfryd i weld y capel yn orlawn â chymaint o bobl wedi dod i'n cefnogi. Diolch i'r Gymdeithas Rieni am ei gwaith yn paratoi a threfnu a diolch yn arbennig i'r plant am lwyddo i greu naws hyfryd ac am ddysgu eu darnau mor dda ar gyfer y noson i gyd.

Diddanu Henoed y Pentref

Bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn diddanu henoed y pentref mewn dau ginio Nadolig yn y Llew Du cyn y gwyliau. Roedd y plant wedi mwynhau cael y cyfle i berfformio'n gyhoeddus o flaen nifer o wynebau cyfarwydd. Diolch i bawb a drefnodd y ddau achlysur ac am roi'r gwahoddiad i'r ysgol.

Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru

Yn ystod mis Rhagfyr, daeth Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru i'r ysgol i gynnal gweithdy. Roedden nhw wedi canolbwyntio ar ganu ac ar symud i gerddoriaeth. Fe gafodd pawb hwyl yn eu cwmni ac rydym yn edrych ymlaen at fynd i weld y Cwmni yn perfformio yng Nghanolfan y Celfyddydau yn ystod mis Ionawr ac hefyd i gyd-ganu a hwy.

Pantomein

Bu'r disgyblion yn gwyllo'r pantomein 'Helâr Twrch Trwyth' yng Nghanolfan y Celfyddydau ar ddechrau'r mis, cafwyd bore hwyllog dros ben a phawb wedi mwynhau'n fawr iawn.



Côr o angylion yn barod i fynd â'r neges pwysig i'r bugeiliaid

Urdd

Cynhaliwyd disgo Nadolig i gloi gweithgareddau'r Urdd am y tymor, diolch arbennig i Mrs Jenkins am drefnu gweithgareddau'r Urdd dros y tymor.

Cwis Llyfrau

Bu tîm o'r ysgol sef Gruffydd, Gwion, Hefin a Rachel yn cystadlu yng nghwis llyfrau Llyfrgell Ceredigion.

Sinema

Diolch yn fawr i'r Gymdeithas Rieni am gyfrannu'n hael tuag at ein hymweliad blynyddol â Sinema'r Commodore. Roedd pawb wedi mwynhau gwyllo'r ffilm *Madagascar*.



YSGOL SUL BETHEL

Uchafbwynt blynyddol Ysgol Sul Bethel yw'r ddrama Nadolig ac eleni, gyda help llaw, neu yn hytrach flwch ffôn Dr Pwy, teithiodd disgyblion y dosbarth Addysg Grefyddol yn ôl i Fethlehem i weld digwyddiadau a chymeriadau stori'r geni.

Fe welodd y disgyblion Mair, Joseff, gŵr y llety, anifeiliaid y llety, yr angylion, y bugeiliaid a'r doethion yn eu holl ogoniant – ac o ganlyniad yn cael eu hargyhoeddi o'r gwirionedd.

Braf oedd cael digon o ofod yn y capel i berfformio'r gwahanol olygfeydd.

Ar ddiwedd y gwasanaeth derbyniwyd casgliad o £129.50 a fydd yn cael ei ddefnyddio i barhau i noddi Muke Sodi trwy'r elusen Action Aid.

Catrin Jenkins a oedd yn cyfeilio ar yr organ.

Aeth nifer allan i ganu carolau ar Ragfyr 22ain a chasglwyd £75.

Yna ar fore Dydd Calan casglwyd £132.65 wrth ganu calennig o amgylch y pentre. Bydd yr arian yn cael ei rannu i elusennau o ddewis y plant.



CYLCH MEITHRIN TAL-Y-BONT

Cafwyd Cyngerdd Nadolig hwyllog ar Ragfyr y 19eg gyda'r plant i gyd yn cymryd rhan ac yn edrych yn ddel iawn yn eu gwisgoedd wrth ail-greu stori'r geni. Diolch o galon i Anti Shân, Anti Anwen ac Anti Brenda am eu hyfforddi a sicrhau ein bod i gyd wedi cael noson wrth ein boddau. Diolch i bawb hefyd a fu'n helpu gyda'r stondinau crefft a chacennau, y tocynnau raffl a'r te a'r mins peis. Llwyddwyd i godi £550 ar y noson.

Bu parti Nadolig y Cylch ar ddydd Mercher ola'r tymor gyda'r plant i gyd yn cael anrheg a sgwrs gyda Siôn Corn. Diolch yn fawr Siôn Corn am alw i'n gweld eleni eto!

Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cefnogi'r Cylch ar hyd y flwyddyn a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.

Ysgol Gymunedol Llangynfelyn

Dymuniadau gorau am flwyddyn lewyrchus ond heddychlon i holl rieni a ffrindiau yr ysgol, a holl ddarllenwyr Papur Pawb.

Cyngerdd y Nadolig

Cafodd nifer fawr o deuluoedd a ffrindiau yr ysgol eu denu i sioe Nadolig yr ysgol ar y 7fed a'r 8fed o Ragfyr.

Cychwynwyd y noson gan berfformiadau cerddorol, gan y gerddorfa, grwpiau bychain, ac unigolion. Roedd yn gyfle gwych i ddangos doniau y disgyblion yn datblygu. Roedd y gynulleidfa wrth eu bodd.



Gareth Myers-Cann a Carys Watson, prif gymeiriadau'r sioe *Robin Hood*



Cawsant wedyn fwynhau hanes y Nadolig cyntaf drwy lygaid y Tafarnwr blin. Ceisiai hwnnw gael noson dda o gwsg, ond roedd ymwelwyr di baid wrth ei ddrws yn chwilio am lety, neu chwilio am fabi! Braff yw adrodd ei fod wedi bod yn ddigon parod ar ddiwedd y dydd i ymuno yn y dathliadau gyda gweddill y criw.

Bu'r gynulleidfa niferus ar ymylon eu seddau yn ail ran y sioe, lle cafwyd mwynhau gorchestion 'Robin Hood' yn trechu y sheriff cas, ac ennill Marian iddo'i hun. Cafwyd llond bol o chwerthin a chanu, ac wedi cael paned a mins peis, aeth pawb adef yn hapus iawn eu byd.

Rhaid diolch o galon am bob cefnogaeth a gafwyd eleni eto i gynhyrchu y sioe yn Neuadd Llanfach am y tro cyntaf, ond yn arbennig, rhaid diolch i'r plant am eu hymroddiad a'u gwaith caled.

Cyngerdd y WI

Ar wahoddiad unwaith eto eleni, bu nifer o blant yr ysgol yn perfformio yng nghyngerdd y WI, yn Neuadd Llanfach, ar nos Lun, Rhagfyr 12fed. Braff oedd gweld cymaint yn bresennol yn mwynhau y noson, ac hefyd braff oedd gweld y plant yn canu gyda brwdfrydedd, nid yn unig eu darnau arbennig hwy, ond hefyd y carolau cynulleidfaol.

Ymweliad yr RSPCA

Cafwyd ymweliad diddorol gan Jane Langford, o'r RSPCA, cyn diwedd y tymor, lle bu'n son am bwysigrwydd gofalu ar ol anifeiliaid anwes, a son am sut mae gwneud hynny yn effeithiol a chywir. Dangosodd holl ddisgyblion yr ysgol ddiddordeb mawr yn y cyflwyniadau, a bydd y wybodaeth a gawsant yn aros ganddynt am amser i ddod.

Cinio Nadolig yr Ysgol

Unwaith eto eleni cafwyd gwledd Nadoligaidd wych, lle cafwyd blasu y twrci a'r trimins i gyd. Yn ôl eu safonau arferol, roedd y bwyd yn hyfryd iawn, a rhaid canmol a diolch i Mrs Linda Hicks a Mrs Phyllis Ellis am eu gwaith diflino, nid yn unig ar amser y Nadolig, ond drwy'r flwyddyn gyfan. Does ryfedd fod mwyafrif llethol y disgyblion yn dewis cael cinio ysgol!

Wythnos Olaf y Tymor

Er mwyn paratoi yn iawn ar gyfer y Nadolig, cafwyd gweithgareddau gwahanol yn ystod yr wythnos olaf.

Sinema – Cafodd yr holl ddisgyblion y pleser o fynd i sinema'r Commodore yn Aberystwyth i weld y ffilm – *Madagascar*. Mae'n anodd penderfynu a'r plant neu'r athrawon wnaeth fwynhau y ffilm fwyaf.

Ymweliad Sion Corn

Rhaid canmol Mr Corn un waith eto eleni am fedru trefnu ei ddyddiadur cystal. Fe lwyddodd i ddod i Langynfelyn ar yr union brynawn pan oedd y plant yn cael parti – rhyfeddol yn 'te! Ar ôl bwyta llawer o felysion a chwarae nifer o gemau, braff oedd cael gair bach personol gyda'r dyn yn y got goch, a derbyn anrhegion unigol yn ogystal ag anrhegion dosbarth. Gobeithio y bydd yn galw eto eleni!


Criw Cynfelyn ac ymweliad yr anifeiliaid anwes

Yn dilyn awgrymiadau a thrafodaethau y cyngor ysgol, Criw Cynfelyn, trefnwyd diwrnod i ddod ag anifeiliaid anwes i'r ysgol ar ddiwrnod olaf y tymor. Bu'r plant yn ufudd iawn i'r cyfarwyddiadau a osodwyd iddynt, a gwelwyd amrywiaeth o anifeiliaid bychain, a chafodd pawb gyfle i weld a thrafod yr anifeiliaid. Gwelwyd popeth o gwningod i foch cwta, a hyd yn oed cathod sydd yn hanner llewpart.

A DAVIES TRYDANOL
Tŷ Morben Isaf
Derwenlas
MACHYNLETH
Powys SY20 8SR
ALAN DAVIES Ffôn 01654 781213

Os am darsi neu fws mini
CAMBRIAN CABS
Teithiau Pell ac Agos
01970 626292

Gwersi Gitâr, Gitâr Fas, Drymiau
a Mandolin, Bouzouki, a Banjo 5-tant
Dafydd Saer BMus
832141


I.O. Thomas a'i Fab
Cigydd, Penygarn
Cig Ffres i'r Rhegwll, Setaig Carref
Oen Cymru, Cig Eidion Gorau
Ffôn: (01970) 828447

Y Fframdy
Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf.
Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.
Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personal
Martie Davis
10-y-coed, Tre Talleis, MACHYNLETH
Ffôn: 01970 832230
Ffôn/Ffacs: +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

GAREJ DAVMOR
M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars
Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun
www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Siop y Pethe
Aberystwyth
Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120



Cinio Nadolig Henoed Tal-y-bont yn y Llew Du, wedi ei drefnu gan bwyllgor 'Age Concern' cylch Aberystwyth.

GYRFA CHWIST Y SIOE

Cynhaliwyd gyrfa chwist flynyddol Sioe Tal-y-bont yn y Neuadd Goffa, nos Fercher, 21 Rhagfyr. Glyn Davies oedd yn cadw trefn ar 27 o fyrddau. Gwragedd y pwyllgor fu'n paratoi y lluniaeth, a phan ddaeth egwyl, braf oedd cael paned a sgwrs a chyfle hefyd i brynu tocynnau'r raffl fach gan Barbara Jenkins.

Buddugwyr y noson oedd:

Sgôr Uchaf 180: Gwýdd: Margaret Davies, Llanbryn-mair
Twrci: Barbara Jenkins, Hafod Ifan; Gareth Owen, Ystrad Meurig
Cyw Iâr: Sheila Owen, Trawsfynydd; Dylan P. Jones, Pennal
Cyw Iâr: Ivy Jones, Blaenplwyf; E. Daniels, Llanbryn-mair
Cyw Iâr: Eddie; Trefor W. Thomas, Trawsfynydd
Miniature Isaf: Ann James, Penbanc; D. Lewis

Bwrw Allan:

Hwyaden: E. Daniels, Llanbryn-mair; Elfed Thomas
Potel o Sieri: Mair Owen; Trefor W. Thomas, Trawsfynydd
Pwдинаu Nadolig: Sylvia Williams, Machynlleth; Beti Roberts; Ieuan Jones, Llanfarian; Elin Williams, Llety Ifan Hen
Dyn/Dynes yn eistedd hiraf: Ann Jones, Machynlleth; Ceri Jones, Pistyll y Llan Plentyn dan 16 oed: Elin Huxtable, Penrhyn-coch; Llyr James
Hywel Evans, Elonwy, Capel Dewi, fu'n tynnu gwobrau y ddwy raffl a dyma'r prif enillwyr: Rhian Glanrafon £60; Nigel James, Llanfarian £40; Barbara Jenkins £30; Owain Hammonds £20; Wyn (Mazda) Anthony Motors £20; Trefor Evans £10; Llyr James £10; Rhif ffôn 01544 346721 £10; Ceri Pistyll y Llan £5; Rhydian Ellis Jones, Draenllwyd £5.
Garmon Tŷ Hen enillodd y wobr gyntaf ar y raffl fach, sef twrci, a bu llawer un arall yn lwcus i gael gwobrau yn lleol ag o'r tu allan.
Talwyd yr holl ddiolchiadau gan Marion Evans, ein cadeiryddes.

Janet Jones, Ysgrifenyddes

SEFYDLIAD Y MERCHED, EGLWYSFACH

Mi gafodd yr aelodau noson arbennig o dda ar y 5 o Ragfyr, sef Dydd Sant Nicholas. Mi ddaeth Toej a Wych Gershon-Loman i ddweud sut mae pobl yr Iseldiroedd yn dathlu y noson. Esboniodd Toej yr hanes – sut mae'r dyn yn cyrraedd mewn llong gyda'i helpwr 'Pedr Ddu'. Mae e'n teithio o gwmpas ar geffyl gwyn i ymweld â phlant. Mae Pedr yn cario sach ble mae plant drwg yn cael eu rhoi.

Yn sydyn mi oedd cnoc ar y drws a pwy oedd na ond y dyn ei hun! (Wych) Roedd e wedi ffeindio amser ar noson brysur iawn i alw i mewn. Mi oedd ei wisg yn fendigedig, a doedd neb yn gallu 'nabod Vik Bamford a oedd yn 'Pedr Ddu'. Wedyn cafwyd adloniant doniol iawn pan ddatllenodd Sant Nicholas hanesion am rai o'r aelodau a'r pethau a oedd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD, REHOBOTH

Ar brynhawn Mawrth, Tachwedd 8fed mwynhawyd cwmni Mrs Bet Evans o Bennal, a'i chwaer Mrs Ann Williams o Fachynlleth. Diddorwyd ni wrth i ni gael hanes busnesau ym Machynlleth yn ystod eu plentyndod yn y pedwar degau, gan fynd a ni drwy'r dref a sôn am bob siop. Mae'n amlwg fod Machynlleth yn dref fywiog a phrysur yr adeg hynny. Diolchwyd iddynt gan Anne Jenkins. Mwynhawyd paned, wedi ei threfnu gan Eirlys Jones a Non Griffiths.

Cynhaliwyd Cyfarfod Nadolig ar Ragfyr 13eg. Yn anffodus methodd Mrs Anne Parry o Bennal ddod i arddangos "Addurniadau Nadolig" oherwydd anffawd ar y diwrnod cynt. Ond yn ffodus llwyddodd Eirlys Jones i gasglu rhai addurniadau Nadolig a'n diddanu am orig, gyda darlleniad a gweddi, a chawsom gyfle i ddewis ein hoff garolau. Roedd paned a mins peis yn dderbyniol iawn ar brynhawn oer wedi eu paratoi gan Myfanwy Rowlands a Mai Leeding. Talwyd y diolchiadau gan Non Griffiths.

Dei Bach yr Injan

Byddaf yn cyfrannu weithiau i'r cylchgrawn Fferm a Thyddyn. Roeddwn wedi bod yn sôn am yr injan ddyrnu a'r ffwdan a'r helynt oedd yn ei chanlyn.

Derbyniais llythyr yn ddiweddar oddi wrth wr bonheddig o Newcastle upon Tyne yn dweud fod Dei yn ewythr iddo. Dywedodd fod llawer o gariadon gan Dei, a gofynnodd a oedd yna rywun yn ardal Talybont wedi bod yn caru efo Dei – ac wedi cael plentyn? Byddaf yn anfon yn ôl ato a dweud nad oedd merched Talybont mor 'hard up' â hynny! Dyn bach byr oedd Dei, ac yn slic drosto o oil a llwch.

Rwy'n meddwl amdanom ni'r merched yn gorfod gwneud gwely iddo efo ac Isaac ei bartner – roedd y ddau yn cysgu efo'i gilydd. Mi briododd Isaac â merch o Dalybont o'r enw Neli'r Felin, ac aethant i fyw i Awstralia mewn lle digon digalon, yn ôl a glywais.

Dywedodd y llythyrwr hefyd fod modryb i Dei o'r enw Mrs Davies a gadwai fusnes llaeth yn Llundain wedi cael ei chladdu yn Nhalybont. Wrth gwrs, bu llawer iawn o Daviesiaid yn rhedeg busnesau llaeth yn Llundain. Cymry oedd yn gwerthu llaeth yno cyn i'r United Dairies gymryd drosodd.

HT

ADOLYGIAD

Capeli Cymru gan D. Huw Owen

Pan lansiwyd llyfr Dr Huw Owen Capeli Cymru ddiweddd Tachwedd, roedd llawer ohonom wedi edrych ymlaen yn eiddgar at gael y gyfrol i'n dwylo. Roedd rhai ohonom wedi cael rhag-flas o'r llyfr gan fod Dr Huw Owen wedi bod o amgylch yn darlithio ar y broblem a'r anhawster o gasglu ei gynnwys. Ond, wedi cael y gyfrol i'm dwylo a dechrau bodio drwyddi y sylweddolais gymaint o lafur ac ymroad a chrwydro a chwilio oedd wedi mynd i mewn i greu'r gyfrol. (Rwy'n siwr mai natur ddiymhongar y darlithydd/awdur oedd yn gyfrifol am hyn!)

Mae'r gyfrol yn cynnwys hanes 106 o Gapeli o Gymru a cheir Atodiad sy'n cynnwys 5 arall – 2 o Loegr a 3 o wledydd tramor. Mae pob enwad Anghydfurfiol yn cael ei gynrychioli ac "mae'r detholiad yn amrywio o'r capel cynharaf a parheir i'w ddefnyddio gan addolwyr, sef Maesyronnen, a adeiladwyd tua 1696, hyd at Berea Newydd, Bangor ... a agorwyd yn 2003".

Fe geir llun o du allan pob capel, a llun hefyd o du mewn rhai ohonynt. Llundiau du a gwyn ydynt gan mae'n debyg fod anawsterau i gael rhai lliw. Cefais fy hun yn synnu at geinder pensaernïol ambell i gapel, er enghraifft 'Y Tabernacl', Caerdydd (tud. 54) a 'Moreia', Llangefni (tud. 112) o'u cymharu a symrlwydd a moelni 'Capel y Beirdd' yn Eifionydd (tud. 85). Gwelir hefyd grandrwydd tu mewn i ambell i gapel, e.e. 'Calfaria', Clydach (tud. 72) a dwy ffenestr liw o bobtu'r pulpud yn 'Hen Gapel', Llanbryn-mair (tud. 98).

Diddorol yw darllen am hanes y capeli, eu cychwyn, y penseiri, yr adeiladu, yr ychwanegiadau a gafwyd; perthyn i rai capeli organau sy'n haeddu sylw e.e. 'Y Tabernacl', Aberystwyth (tud. 33). Tynnir ein sylw at bobl enwog a fagwyd mewn rhai capeli, neu a fu'n aelodau: ceir rhestr o'r Gweinidogion o'r cychwyn hyd at heddiw a nodir gweithgarwch yr Eglwys a nifer yr aelodau a'r plant. Ceir cyfeiriad hefyd at gapel Bethel, Tal-y-bont.

Gwn am dref yng ngogledd Cymru sydd, o fewn rhyw 40 mlynedd, wedi gweld chwech allan o saith o'i chapeli yn cau. 'Does dim rhaid dweud felly ein bod yn colli ein treftadaeth grefyddol, ac wrth i'r capeli sy'n cau gael eu newid yn dai annedd, siopau, marchnadoedd etc. ac i'r gymdeithas newid, mae'r cof am y capeli'n darford.

Credaf, felly, fod Dr Huw Owen wedi gwneud cymwynas fawr a ni fel Cymry ac fel crefyddwyr trwy roi i ni'r gyfrol hon. Beth bynnag a ddigwydd i'r capeli yn y gyfrol, o leiaf fe fydd y cof amdanynt yn dal i fodoli. Mae'n gyfrol ddeniadol, yn llawn ffeithiau ac o ddi-ddordeb i bawb sydd yn ymddiddori yn y sefyllfa grefyddol yng Nghymru heddiw. Y cyhoeddwyd yw'r Lolfa a'r pris yw £14.95 ac yn werth pob ceiniog!

Yn ei Ragymadrodd dywed yr awdur fod "Comisiwn Brenhinol Cymru mewn cydweithrediad a CAPEL wedi cofnodi ... 6,200 o gapeli Anghydfurfiol ...". Digon o ddewis am gyfrol arall!

Y Parch Robert W. Jones

ANGEN
Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627

Llaethdy
Tal-y-bont a'r Cylch

Yn dosbarthu i:
Tal-y-bont, Pentrebach, Taliesin,
Llancynfelyn, Tre'rddol, Ffwrnais,
Eglwysfach a Glandyfi

Cysylltwch â
Dylan neu Catherine
Ffôn: 01970 832516



CINIO'R SIOE

Nos Wener, 2 Rhagfyr aethom i Blas Antaron i gael ein cinio blynyddol.

Croesawyd ni gan ein Cadeiryddes, Marion Evans ac estynnodd groeso arbennig i'r gŵr gwadd a'i wraig, sef Charles a Mari Arch o Bennal.

Wedi bwyta pryd ardderchog, cawsom noson hwyliog a chofiadwy yng nghwmni Charles Arch. Talwyd y diolchiadau gan yr Is-gadeirydd, Evan Jenkins.

J.J.



MERCHED Y WAWR TAL-Y-BONT A'R CYLCH

Bu tymor yr hydref yn un prysur i aelodau Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch. Aeth pymtheg ohonynt i weld cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru, Hen Rebel, yn Theatr y Werin. Cynhaliwyd cwis y mudiad yng ngwesty Tyglyn Aeron, ac aeth dau dîm o'r gangen yno a chael llawer o hwyl. Hefyd bu nifer o'r aelodau yn cynnal stonddin gacennau ac yn cynorthwyo yn Ffair y Neuadd Goffa ar 26 Tachwedd.

Cynhaliwyd noson yn enw'r Academi ar 21 Tachwedd a chroesawyd yr awdures Caryl Lewis, Goginan i'r cyfarfod gan Ellen ap Gwynn, ein Llywydd. Adroddodd Caryl hynt ei gyrfa wedi iddi raddio o Brifysgol Durham hyd y presennol, ac erbyn hyn mae'n awdures llawn amser ac wedi ymgartrefu yng Ngoginan. Dros y blynyddoedd cyhoeddodd sawl nofel a llyfrau i blant, ac eleni hi enillodd wobwr Llyfr y Flwyddyn am ei nofel Martha, Jac a Sianco, ac fe'i llongyfarchwyd am ei champ. Diolchwyd iddi gan Medi James, a Medi a Megan Mai oedd yng ngofal y te ar ddiwedd y noson.

Nos Sul 18 Rhagfyr cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig y gangen yng nghapel Bethel, Tal-y-bont. Cymerwyd rhan gan yr aelodau a gan aelodau nifer o gymdeithasau Tal-y-bont a'r Cylch. Yn ystod y noson gwnaed casgliad tuag at Ambiwlans Awyr Cymru, a chyflwynwyd sicac am £225.15 i gynrychiolydd o'r mudiad hwnnw.

Elin Jones AC – O'r Cynulliad

Bu trafod brwd yn y Cynulliad ar y Gyllideb eleni. Er i ni ennill gwelliannau allweddol mewn meysydd pwysig megis, addysg a phrifysgolion, rheilffyrdd ac i bensiynwyr, fe benderfynodd Llywodraeth y Cynulliad dorri ambell gyllideb bwysig arall yn hytrach na chymryd yr arian ychwanegol o'r gyllideb wrth gefn. Roedd hyn yn siomedig iawn, yn enwedig gan fod £100 miliwn yn y gyllideb wrth gefn – 4 gwaith cymaint a'r hyn oedd yn y gyllideb yma 4 mlynedd yn ôl.



Yn ystod y mis diwethaf daeth y newyddion trist i Geredigion fod bygythiad i 115 o swyddi yn ffatri pacio caws Dairygold yn Felinbach, ergyd sylweddol i nifer o deuluoedd yr ardal a ninnau'n agosau at y Nadolig. Rwyf wedi cynnal cyfarfodydd gyda'r staff a'r rheolwyr a byddaf yn parhau i wneud popeth posibl i sicrhau fod y ffatri yn cael ei gwerthu fel busnes gweithredol. Dyma ergyd arall i ddiwydiant llaeth sy'n gwegian yn barod yng Ngheredigion gyda'r pris mae'r ffermwr yn derbyn am y llaeth a gynhyrchir yn afresymol o isel. Cefais y cyfle hefyd i drafod y problemau a wynebwr o ddydd i ddydd ar ymweliad â drefnwyd gan Undeb Amaethwyr Cymru ar fferm Esgerinion, Llanwenog yn ddiweddar a byddaf yn dwyn sylw i'w anghenion wrth ymuno â Phwyllgor Amaeth y Cynulliad yn y flwyddyn newydd. Diolch iddynt am y croeso a diolch hefyd i'r Undeb am wasanaeth clodwiw i amaeth yng Nghymru wrth iddi ddathlu ei phenblwydd yn 50 oed.

Mater arall sydd wedi cael tipyn o fy sylw yn ystod yr wythnosau diwethaf yw lleoliad mastiau telegyfathrebu o fewn y sir. Yn ddiweddar llwyddodd ymgyrchu brwd i sicrhau tynnu lawr mast ym Mharc-y-Llyn, Aberystwyth oedd gerllaw tair ysgol a nifer o dai. Rwyf wedi galw am newidiadau mewn canllawiau cynllunio fyddai'n sefydlu ardaloedd gwahardd rhag lleoli mastiau o gwmpas ysgolion a chanolfanau meddygol.

Mae'r frwydr i arbed ysbytai cymunedol Ceredigion yn parhau. Mae grwpiau ymgyrchu wedi eu sefydlu yn Nhregaron ac Aberteifi ac wrth gydwethio gyda nhw a phwyso unwaith yn rhagor am uno dau gorff gweinyddol y gwasanaeth Iechyd yng Ngheredigion gobeithiaf bod modd sicrhau parhad y gwasanaeth arbennig a gynigir yn y ddau ysbyty.



Mr Alan Phillips a band pres Ysgol Tal-y-bont yn perfformio y tu allan i siop Spar ac yn ymarfer carolau ar gyfer cinio'r henoed.

James Memorials

Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

*Gofynnwch am bannffed
rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-all:
holwch Paul am bris
ar paul@ylolfa.com

ylolfa

TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE
01970 832 304
ylolfa@ylolfa.com
www.ylolfa.com

CHWARAEON



Gerwyn ac Eifion Jones, Tal-y-bont, yn derbyn crysau newydd a gyflwynwyd i Glwb Rygbi Aberystwyth gan Dyfrig Jones, saer ac adeiladydd o Gapel Seion, yntau â'i wreiddiau'n ddwfn yn yr ardal hon. 'Mae diddordeb Dyfrig yn y Clwb yn deillio o'r ffaith ei fod yn gefnder i'r ddau flaenwr talentog hyn – dau sydd â'u hymroddiad a'u teyrngarwch wedi bod yn ysbrydoliaeth i'r Clwb,' meddai Alun Oliver, Cadeirydd a Swyddog Nawdd y Clwb.

Rheolwr Bodlon

Mae rheolwr tîm pêl-droed Tal-y-bont, Anthony Southgate yn fodlon ei fyd ar hyn o bryd. Hanner ffordd trwy'r tymor mae Tal-y-bont ymhlith ceffylau blaen ail adran Cynghrair Aberystwyth ar Cylch a chafwyd dwy fuddugoliaeth arwyddocaol yn ddiweddar.

Ar ddiwrnod olaf 2005 curwyd Corris oddi cartref o 3 i 2, gyda Gareth Hughes yn sgorio hatric da. Cafwyd dechrau perffaith i'r flwyddyn newydd hefyd wrth i Dal-y-bont gwrdd â'r hen elyn Bow Street oddi cartre ar 7 Ionawr. Er bod Bow Street yn gryfach yn gorfforol, roedd mwy o sgiliau gan fechgyn ifanc Tal-y-bont ar y dydd. Bow Street gafodd y meddiant yn gynnwys y gêm ond Tal-y-bont aeth ar y blaen ar ôl ugain munud pan fanteisiodd Gareth Hughes ar amryfusedd yn amddiffyn Bow Street. Tarodd Dave Jones y trawst yn fuan wedyn ac er bod Bow Street yn pwysu roedd Wyn Benjamin a Jamie Barron yn gadarn yn yr amddiffyn a Mark Davies yn ddibynadwy yn y gôl. Yn anffodus ildwyd gôl yn gynnwys yn yr ail hanner ac fe fu raid i amddiffynwyr Tal-y-bont ddal eu tir yn gadarn am gyfnod. Yn hwyr yn y gêm dechreuodd y blaenwyr greu cyfleoedd eto ac o groesiad da o'r dde, fe rwydodd Dave Jones y gôl a ddaeth ar fuddugoliaeth i Dal-y-bont.

Roedd hon yn fuddugoliaeth allweddol i Dal-y-bont wrth i'r tîm frwydro am ddyrchafiad. Er bod gwendidau yn y tîm yn parhau, mae perfformiadau bechgyn ifanc fel Steve Evans, Dylan Lewis a Gareth Hughes yn creu hyder ar gyfer y dyfodol. Er bod llawer o gemau i'w chwarae eto mae'n bosibl y bydd Anthony a'i dîm yn dathlu ar ddiwedd y tymor.



RECORD CANT Y CANT

Ar ôl ennill dyrchafiad i ail adran y cynghrair dartiau lleol y tymor diwethaf mae tîm y Llew Gwyn, Tal-y-bont, yn anelu am ddyrchafiad i'r adran gyntaf. Yn wir mae'n anodd gweld sut y gall y tîm fethu gan ei fod ar frig yr adran ar hyn o bryd, yn 24 pwynt ar y blaen i'r timau eraill (hyd yn oed yn well na Chelsea!). Enillwyd pob un o'r gemau hyd yn hyn gan guro Penrhyn-coch yn yr ornest ddiweddaraf o 5 i 2.

Capten y tîm eleni yw Glyn Humphries ac mae John y Gwyn, sy'n gweithredu fel 'defensive coach' yn ôl ef, wrth ei fodd â'r llwyddiant. Ac nid y tîm hwn sy'n cael llwyddiant mawr yn y Llew Gwyn ar hyn o bryd gan fod tîm dartiau'r merched hefyd ar frig yr adran ac felly hefyd tîm cwis y Llew Gwyn sy'n cystadlu yn y cynghrair lleol. Bydd cyfle i roi mwy o sylw i'r timau hyn yn y dyfodol.

Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN

Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 - 07721 786292

CODI Tŷ NEU ESTYNIAD?

Iwan Jones, Technegydd Pensoernïol
Gellinrewech, Tal-y-bont, Ceredigion SY24 5HJ
01478 632760

AM EICH HOLL ANGHENION BRODWAITH, CROESBWYTH A THAPESTRIAU

GALWCH YN **PWYTHAU'R SGUBOR**

GER SIOP GOFFLA
CHREFFTAU PENNAU
RHYDYPENNAU, BOW STREET, ABERYSTWYTH
FFÔN: 01970-820122

TEIARS

HUW LEWIS TYRES

Rhodfa'r Parc, Aberystwyth
Ffôn: 01970 636774

Am bris cystadleuol ar bob math o deiars, ecsôsts, ac ati, cysylltwch â gwasanaeth lleol...

- Dewis eang o deiars
- Balansio Electronig
- Ecsôsts
- Tracio
- Brêcs
- Ar agor 6 diwrnod yr wythnos

